CYLCHGRAWN AR GYFER FFERMIO A CHOEDWIGAETH YNG NGHYMRU

# cyswllt FFERMIO

FARMING connect
cyswllt FFERMIO

**Rhwydwaith Arddangos**
Y defnydd o dechnoleg yn hwyluso penderfyniadau rheoli

**Prosiect Pridd Cymru**
Mesur eich stoc carbon pridd



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**RHIFYN 43** - Ionawr/Chwefror 2023 | **llyw.cymru/cyswlltffermio**

# RHAGAIR - Eirwen Williams

Croeso i rifyn olaf o'r Cyhoeddiad Technegol yn ei ffurf bresennol. O 1 Ebrill ymlaen, bydd rhaglen Cyswllt Ffermio newydd yn cael ei lansio er mwyn cryfhau'r ddarpariaeth a pharatoi'r ffordd tuag at y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Byddwn yn recriwtio rhwydwaith newydd o ffermydd arddangos ar draws Cymru a fydd yn cynrychioli'r amrywiol sectorau a'r mathau gwahanol o ffermydd ar draws y wlad. Felly, os oes gennych ddiddordeb mewn bod yn fferm arddangos i Cyswllt Ffermio, byddem wrth ein bodd yn clywed gennych. Bydd y Cyhoeddiad Technegol hwn hefyd yn newid i fod yn chwarterol yn hytrach na bob yn ail fis.

Hoffem ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at lwyddiant Cyswllt Ffermio dros y blynyddoedd diwethaf. Ers 2015, rydym wedi cofrestru bron i 27,000 o unigolion, wedi cynnal tua 10,000 o ddigwyddiadau ac mae 18,000 o bobl wedi mynychu ein cymorthfeydd a'n clinigau. Mae bron i 5,000 o fusnesau wedi derbyn cyngor trwy'r gwasanaeth cynghori gydag arolwg diweddar yn dangos fod 93% yn dweud eu bod wedi newid neu'n bwriadu gwneud newidiadau i'w busnes o ganlyniad i'r cyngor. Yn ogystal â hyn, rydym wedi sefydlu 55 menter ar y cyd, a byddwn yn annog unrhyw un sy'n ystyried cymryd cam yn ôl o reoli eu ffermydd i gysylltu gyda ni er mwyn rhoi cyfle i'r rheiny sydd am ddechrau ffermio i gael eu troed ar yr ysgol. Does dim dwywaith ein bod i gyd yn dysgu gydol ein hoes, a gallwn ddysgu, nid yn unig oddi wrth arbenigwyr mewn meysydd gwahanol, ond hefyd oddi wrth ffermwyr eraill. Mae ymaelodi â'n grwpiau trafod yn ffordd dda o wneud hyn, neu fanteisio ar ein cynllun mentora lle mae ffermwyr yn mentora ffermwyr. Mae dros 750 o bobl wedi bod yn rhan o'r cynllun mentora, gyda dros 90% ohonynt yn dweud y byddent yn argymell y cynllun i ffermwyr eraill.

Wrth edrych ymlaen at y rhaglen Cyswllt Ffermio newydd, hoffwn annog pob un ohonoch i gysylltu â ni. Rydym ni yma i helpu!



# Glanmynys — Peredur Owen a Carine Kidd

**SWYDDOG TECHNEGOL:** Menna Williams
**TEITL Y PROSIECT:** Defnyddio meddalwedd i wneud penderfyniadau rheoli


Mae Peredur Owen a Carine Kidd wedi dechrau defnyddio meddalwedd FARMAX i reoli'r fferm. Mae'r feddalwedd hon yn asesu gofynion y stoc o ran mater sych ochr yn ochr â mater sych a gynhyrchir o'r porthiant. Mae'n hanfodol bod data cywir fel mesuriadau glaswellt, rhif stoc a phwysau yn cael eu mewnbynnu i'r feddalwedd FARMAX i gynhyrchu gwybodaeth y gellir gweithredu arno. Mae lefelau twf a galw 2022 i'w gweld yn Ffigwr 1, a thynnir sylw at wasgbwynt yn Ionawr a Chwefror ac eto rhwng Mehefin a Medi 2022. Mae hyn i'w weld pan fydd y llinell werdd denau yn mynd yn is na'r llinell werdd drwchus.

Gwnaed gwaith ymchwil i ddod i benderfyniad er mwyn gallu lleddfu'r gwasgbwyntiau hyn. Y senario gorau a nodwyd oedd anfon 840 o famogiaid i ffwrdd fel defaid cadw dros y gaeaf. Mae hynny'n cael gwared ar y prinder mater sych rhwng mis Rhagfyr 2022 a mis Mawrth 2023 (blwch coch) gan y bydd cyfle i'r glaswellt ail-dyfu. Erbyn Gorffennaf 2023 (blwch coch), mae'r cyflenwad yn gostwng o dan y llinell darged yn sgil neilltuo rhan o'r borfa ar gyfer silwair, ond o fis Medi 2023 (blwch glas) ymlaen, mae'r cyflenwad yn parhau ar y targed.


Hefyd, mae Tabl 1 yn dangos sut mae pwysau'r corff yn cynyddu pan gaiff y mamogiaid eu troi at yr hwrdd ac wrth eu diddyfnu o ganlyniad i anfon mwy o famogiaid i ffwrdd fel defaid cadw dros y gaeaf. Mae'r cynnydd yn sgôr cyflwr y corff hefyd yn arwain at fwy o ŵyn yn cael eu diddyfnu ac ar bwysau uwch.

Gan edrych ar ffactorau economaidd y senario hon, gan ystyried y gwelliant mewn allbwn anifeiliaid a amlinellir yn Nhabl 1, mae'r elw gros yn cynyddu o £89/ha a borir ar ôl amcangyfrif bod cost y defaid cadw yn £1.50/mamog/wythnos.

Mae gallu rhagweld a chreu senarios wedi golygu bod Carine a Peredur yn teimlo'n hyderus i anfon mwy o famogiaid i ffwrdd dros y gaeaf i leihau prinder posibl yn y dyfodol. Yr wybodaeth fwyaf brawychus a gafwyd drwy'r dull hwn o ragweld yw sut mae'r penderfyniadau rheoli a gymerir nawr yn cael effaith hirdymor ac, yn yr enghraifft hon, mae'n cymryd bron i ddwy flynedd i gyrraedd pwynt lle mae'r cyflenwad a'r lefelau galw yn cyfateb.




*Ffigwr 1. Porfa ar gyfer Glanmynys rhwng Rhagfyr 2021 a Thachwedd 2022*




*Ffigwr 2. Twf porfa yng Nglanmynys ar gyfer 2023*

| Sheep year: | 2021 - 2022 | 2022 - 2023 | 2023 - 2024 |
|---|---|---|---|
| Average lamb weaning weight. Base v Scenario | 25 kg - 25 kg | 24 Kg - 26 kg | 22 kg - 26 kg |
| Ewe losses mating to wean. Base v scenario | | 25 - 25 | 55 - 25 |
| Average ewe weigh at mating weight. Base v scenario | 55kg - 55 kg | 54 kg - 55.3 kg | 54 kg - 56 kg |
| Average ewe weigh in July weight after weaning. Base v scenario | 53 kg - 53 kg | 54 kg - 58.2 kg | 48 kg - 57.5 kg |

*Tabl 1. Cymharu rhwng y dull rheoli yn y gorffennol (sylfaen) ac anfon mwy o famogiaid i ffwrdd fel defaid cadw dros y gaeaf (senario).*

Cofiwch, wrth ddefnyddio unrhyw feddalwedd, y mwyaf cywir yw'r data sy'n cael ei fewnbynnu, y gorau yw'r penderfyniadau rheoli y gallwch eu gwneud.

I gael rhagor o wybodaeth am y prosiect hwn, sganiwch neu cliciwch ar y cod QR neu ewch i wefan Cyswllt Ffermio;
**llyw.cymru/cyswlltffermioeinffermydd**

# Moelogan Fawr

Llion a Siân Jones

**SWYDDOG TECHNEGOL:** Non Williams
**TEITL Y PROSIECT:** Defnyddio technoleg bolws i wella cyfraddau cenhedlu, patrwm lloea a monitro iechyd

**Diweddariad am y prosiect:**
Mae treialu technoleg arloesol i wella ffrwythlondeb buchesi wedi bod yn ganolog i waith Moelogan Fawr fel un o safleoedd arddangos cig coch Cyswllt Ffermio. Prif nod y prosiect o'r cychwyn oedd lleihau'r cyfnod lloea drwy ddefnyddio technoleg bolws a chasglu mwy o ddata er mwyn:

- Lleihau mewnbynnau llafur drwy ddefnyddio technoleg i weld pa fuchod sy'n gofyn tarw
- Lleihau cost filfeddygol am driniaethau ffrwythlondeb ac iechyd

Dangosodd y canlyniadau allweddol o flwyddyn gyntaf y prosiect (2020) fod cyfanswm o 95% o'r heffrod a gafodd folws smaXtec drwy'r geg yn gyflo (yn dilyn cyfanswm o ddau gylch ffrwythloni artiffisial (AI) a throi'r tarw atynt).

Wrth i'r prosiect ddatblygu yn 2022 rhoddwyd cyfanswm o 50 o'r bolysau smaXtec classic SX.2 diweddaraf drwy'r geg i heffrod Stabiliser blwydd yng ngwanwyn 2022. Mae'r bolws diweddaraf yn mesur tymheredd yn y rwmen a lefel gweithgaredd yr anifail, gan roi gwybodaeth gywirach am fuchod sy'n gofyn tarw a statws lloea. Yn ogystal â hyn, roedd gan y system bolws hon allddarlleniad hirach (150-300m) na'r system flaenorol, sy'n golygu nad oedd angen symud yr orsaf ganolog o amgylch y caeau gyda'r heffrod. Roedd hyn yn arbed amser a llafur sylweddol i Llion a Siân Jones, sy'n ffermio ym Moelogan Fawr.

Dangosodd y canlyniadau sganio fod cyfanswm o 56% o'r heffrod yn gyflo yn dilyn un cylch AI (o'i gymharu â 57% yn gyflo yn dilyn dau gylch AI yn 2021 heb ddefnyddio'r bolws a gyda llawer mwy o fewnbwn llafur). Roedd 36% yn ychwanegol yn gyflo ar ôl i'r tarw gael ei droi atynt. O'r 56% oedd yn gyflo yn dilyn un cylch AI, canfuwyd bod 14% yn gofyn tarw trwy'r bolws yn unig (heb gael eu gweld yn gofyn tarw). Bydd y canlyniad hwn yn allweddol i fyrhau cyfnod lloea 2023 wrth i'r fferm anelu at barhau i wella ffrwythlondeb y fuches yn seiliedig ar eneteg well, llai o lafur a chwtogi'r cyfnod lloea.



*Ffigwr 3. Heffrod a lloeau ym Moelogan Fawr*

I gael rhagor o wybodaeth am y prosiect hwn, sganiwch neu cliciwch ar y cod QR neu ewch i wefan Cyswllt Ffermio;
**llyw.cymru/cyswlltffermioeinffermydd**

# Erw Fawr


Ceredig a Sara Evans

**SWYDDOG TECHNEGOL:** Non Williams
**TEITL Y PROSIECT:** Defnyddio synwyryddion LoRaWAN i amseru'r gwrteithio'n well a gwella ansawdd y silwair yn Erw Fawr

Mae Erw Fawr wedi defnyddio synwyryddion tymheredd pridd ac aer i helpu i wneud penderfyniadau sy'n gysylltiedig â chynhyrchu silwair ar y fferm. Mae synwyryddion LoRaWAN wedi cael eu defnyddio ar y fferm fel rhan o rôl Erw Fawr fel safle arddangos llaeth Cyswllt Ffermio, yn ogystal â'i rôl ym mhrosiect Rhaglen Arloesi Ewrop (EIP) sy'n canolbwyntio ar ddefnyddio technoleg synwyryddion i wella'r dull o reoli slyri. Mae data o'r synwyryddion yn cael eu trosglwyddo i ddangosfwrdd gweledol (Ffigwr 4) y gellir ei weld ar gyfrifiadur neu ffôn symudol.

Mae Erw Fawr hefyd yn cymryd rhan ym Mhrosiect Porfa Cymru Cyswllt Ffermio. Mae'r wybodaeth am dymheredd a lleithder a gafwyd drwy'r synwyryddion, ynghyd â mesuriadau twf glaswellt a gymerwyd fel rhan o Brosiect Porfa Cymru wedi helpu'r ffermwr, Ceredig Evans, i wneud penderfyniadau ar sail data ynglŷn ag amseru'r gwrteithio yn ogystal â phryd i dorri silwair. Fel y gwelir yn Ffigwr 4, roedd cynnydd yn nhymheredd y pridd rhwng canol a diwedd mis Mawrth, yn ogystal â rhwng canol a diwedd Ebrill 2022. Arweiniodd hyn at wrteithio'n gynharach, a thoriad cyntaf ardderchog o'u system silwair aml-doriad ar ddiwedd mis Ebrill (gwerth-D = 733 g/kg, Protein Crai = 174 g/kg, Egni Metaboladwy = 11.7 MJ/kg). Lleihawyd yr amser rhwng y toriad cyntaf a'r ail doriad o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, a oedd o fudd mawr yn ddiweddarach yn y tymor, o ystyried y tywydd sych a effeithiodd ar dwf glaswellt yn ystod yr haf.

Mae'r wybodaeth fanwl a gasglwyd drwy'r dechnoleg arloesol hon sy'n defnyddio synwyryddion wedi effeithio'n gadarnhaol ar y fferm o safbwynt perfformiad a phroffidioldeb.



*Ffigwr 4. Data tymheredd pridd o un o'r synwyryddion o fis Chwefror-Mai 2022.*

I gael rhagor o wybodaeth am y prosiect hwn, sganiwch neu cliciwch ar y cod QR neu ewch i wefan Cyswllt Ffermio;
**llyw.cymru/cyswlltffermioeinffermydd**

# Pantyderi

## Wyn ac Eurig Jones

**SWYDDOG TECHNEGOL:** Dr Delana Davies
**TEITL Y PROSIECT:** Defnyddio cysylltedd LoRaWAN i fonitro lefelau nitradau pridd amser real mewn cnwd gwenith gaeaf

Gwnaeth y prosiect hwn ddefnydd o'r porth LoRaWAN presennol ar safle arddangos Pantyderi i gasglu a monitro darlleniadau nitradau pridd amser real mewn cnwd gwenith gaeaf. Cydweithiodd y prosiect gyda phrosiect Innovate UK sy'n datblygu'r defnydd o synwyryddion nitrad yn y pridd a leolir yng Nghanolfan John Innes yn Norwich.


Gosodwyd tair set o synwyryddion nitrad, ynghyd â synwyryddion tymheredd a lleithder, ar dop, canol a gwaelod y cae ar ddyfnder pridd o 15cm a'u cysylltu â throsglwyddydd LoRaWAN. Daliwyd ati i gofnodi data o ddiwedd mis Hydref nes cynaeafwyd y cnwd ym mis Gorffennaf 2022.



*Ffigwr 5. Set o synwyryddion nitrad, tymheredd a lleithder pridd gyda throsglwyddydd LoRaWAN*

### Darlleniadau synhwyrydd nitrad pridd

Ar ôl eu gosod, dangosodd y synwyryddion nitrad ddarlleniadau ddwy i dair gwaith yn uwch na'r disgwyl ar gyfer lefelau gwaelodol arferol y pridd a rhagdybiwyd bod hyn yn cynrychioli'r nitrogen oedd ar gael a sefydlogwyd gan y cnwd pys a ffa blaenorol. Y cyngor a roddwyd gan yr Athro Tony Miller oedd aros nes bod lefelau nitradau wedi gostwng 20% cyn defnyddio gwrtaith nitrogen, ond nid oedd tystiolaeth o hyn yn digwydd dros gyfnod y gaeaf (ffigwr 6).




*Ffigwr 6: Darlleniadau synhwyrydd nitradau rhwng mis Rhagfyr a mis Mawrth*

Defnyddiwyd gwrtaith nitrogen o 25% gyda 5% o sylffwr ar ddiwedd mis Mawrth ar gyfradd o 150kg/ha, er na chofnodwyd unrhyw ymateb sylweddol gan y synwyryddion. Awgrymwyd gan dîm y prosiect y dylid eu codi a'u newid, a dychwelwyd yr hen synwyryddion i'w graddnodi. Wrth brofi, dangosodd y synwyryddion hyn sensitifrwydd gwael i nitradau, yn enwedig yn y crynodiadau is lle canfyddir newidiadau mwy manwl, a gadarnhaodd yr amheuaeth eu bod yn dirywio dros amser a'u bod ond yn para yn y pridd am 4 i 5 mis.



*Ffigwr 7: Newid y synwyryddion nitrad ar 26 Mai*

### Darlleniadau tymheredd a lleithder pridd

Roedd y gallu i gasglu data bob dwy awr ar nodweddion pridd ar ddyfnder o 15cm yn rhoi gwybodaeth werthfawr am y cae agored hwn sydd 230m uwch lefel y môr. Mae tymereddau pridd o 6-7°C yn ofynnol ar gyfer mwyneiddiad a defnydd nitrogen, gan gyd-fynd â mwy o weithgarwch biolegol yn y pridd a thwf planhigion, ac ni chofnodwyd hyn yn gyson tan ganol mis Ebrill.

Mae lleithder y pridd hefyd yn hanfodol er mwyn i nitrogen gael ei ddefnyddio'n effeithlon a dechreuodd priddoedd sychu ganol mis Mawrth gan barhau i sychu drwy'r haf. Felly, taenwyd nitrogen yn ddiweddarach drwy chwistrellu'r dail i sicrhau'r canlyniad gorau ar gyfer y mewnbwn costus hwn.

### Casgliadau

Mae cysylltedd LoRaWAN wedi gweithio'n dda i gasglu a throsglwyddo llawer iawn o ddata amser real ac mae tîm prosiect Innovate UK wedi cael tystiolaeth ddigonol yn y canlyniadau i ymchwilio ymhellach i'w ddefnydd o fewn eu gwaith.

Gall defnyddio synwyryddion nitrad roi gwybodaeth werthfawr ynglŷn â sut mae lefelau nitrad sy'n hydoddi mewn dŵr yn newid yn y pridd ar ddyfnder gwreiddiau planhigion, gyda'r potensial i nitrogen gael ei ddefnyddio'n fwy effeithlon yn y pridd. Mae'n amlwg fod angen edrych yn fanylach ar y synwyryddion er mwyn eu gwneud yn fwy addas ar gyfer amodau caeau.

Roedd cnwd gwenith gaeaf yn cynhyrchu 9.7t/ha a dangosodd canlyniadau Meincnodi Maetholion Grawn YEN nad oedd y cnwd yn brin o nitrogen er bod tua 50% yn llai o nitrogen wedi'i roi na'r lefel a argymhellir ar gyfer cnwd arferol.

Mae synwyryddion tymheredd a lleithder pridd yn rhad i'w defnyddio, ac ynghyd â chasglu data'n awtomatig drwy ddefnyddio porth LoRaWAN, mae ganddynt y potensial i roi gwybodaeth benodol i ffermwyr a fyddai'n gallu gwella faint a phryd o nitrogen i'w roi ar gae penodol. Efallai y bydd hefyd yn helpu i roi syniad o amodau lle byddai rhoi nitrogen drwy'r dail yn rhoi canlyniad gwell na'i roi ar y pridd mewn sefyllfa ble mae diffyg lleithder.

I gael rhagor o wybodaeth am y prosiect hwn, sganiwch neu cliciwch ar y cod QR neu ewch i wefan Cyswllt Ffermio;
**llyw.cymru/cyswlltffermioeinffermydd**

RHWYDWAITH ARDDANGOS DEMONSTRATION NETWORK

**SWYDDOG TECHNEGOL:** Simon Pitt
**TEITL Y PROSIECT:** Dethol ar gyfer geneteg effeithlon mewn buches sy’n lloea yn y gwanwyn

### Cefndir

Pwrpas y prosiect hwn oedd adolygu'r cyfleoedd a'r potensial i fanteisio i'r eithaf ar nodweddion genetig heffrod llaeth cyfnewid mewn buches sy'n lloea mewn bloc yn y gwanwyn. Rhaid i'r meini prawf dethol ystyried y nodau bridio a osodwyd gan y fferm yn ogystal â sicrhau bod digon o heffrod cyfnewid rhag ofn bod unrhyw golledion oherwydd bTB.

### Cyflwyniad

Mae’r teulu Hannah, Fferm Mountjoy yn cadw buches sy’n lloea mewn bloc yn hwyr yn y gwanwyn, gyda'r rhan fwyaf o benderfyniadau o ddydd i ddydd yn cael eu gwneud gan Will Hannah. Gan fod achosion o bTB yn yr ardal, mae'r teulu Hannah wedi bod yn magu mwy o heffrod nag sydd ei angen, gan osod nifer cyfyngedig o nodau bridio i sicrhau bod niferoedd anifeiliaid yn cael eu cynnal.


Mae'r fferm yn 186ha, a chaiff ei defnyddio’n bennaf fel tir pori ar gyfer y 370 o wartheg godro a 200 o heffrod llaeth cyfnewid. Y meini prawf bridio yn ystod y blynyddoedd diwethaf yw cadw buchod llaeth Friesian Seland Newydd i gynhyrchu lefel uchel o solidau llaeth a llaeth o borthiant.

Nod y prosiect oedd gwerthuso cryfderau a gwendidau potensial geneteg y stoc ifanc, gyda chyfle i gadw’r heffrod gorau i gyflawni'r gyfradd gyfnewid o 20% a gwerthu'r heffrod eraill.


Gosodwyd y meini prawf bridio canlynol gan y teulu Hannah fel eu hamcanion bridio:

- Safon y braster a’r protein yn uchel
- Ffrwythlondeb da
- Symud yn dda ar eu traed
- *Ymwrthedd i TB
- Dyfnder y corff a’i led

**Cyflwynwyd TB Advantage fel nodwedd fridio newydd yn 2014. Mae ar raddfa o +3 i -3, gan anelu at sgôr positif. Datblygwyd y nodwedd i fridio ymwrthedd i bTB o fewn buches. Mae'r gwerth ar gael ar gyfer yr holl deirw sydd wedi cael prawf genomeg a heffrod sydd wedi cael prawf genomeg.*




*Ffigwr 8. Rhagfynegiad genomeg o'i gymharu â pherfformiad godro gwirioneddol.*




*Ffigwr 9. Rhagfynegiad genomeg % protein yn erbyn perfformiad godro gwirioneddol.*

Mae Ffigwr 9 yn dangos yr un diemwntau glas i ddangos y rhagfynegiad genomeg ar gyfer canran protein gyda'r llinell las yn dangos y canlyniadau cofnodi llaeth gwirioneddol.

### Canlyniadau

Fel y gwelir o ffigyrau 8 a 9, roedd y nodweddion cynhyrchu genomig yn gyffredinol yn olrhain perfformiad gwirioneddol yr anifeiliaid ar ôl iddynt loea (i'r fuches).

### Casgliad

Gallwn weld o'r canlyniadau bod profion genomig yn caniatáu i ni ddewis a dethol yr heffrod cyfnewid a gall gael effaith sylweddol ar ba anifeiliaid i'w cadw yn y fuches i sicrhau'r perfformiad gorau.

Gydag ystod o +61kg i -757kg ar solidau llaeth o fewn y grŵp a brofwyd ac ystod £PLI o £286 rhwng y brig a'r gwaelod, gellir gwneud cynnydd genetig enfawr mewn un genhedlaeth.

Hyd yn oed gyda'r risg o gyfyngiadau bTB, bydd defnyddio genomeg i sicrhau bod y teulu Hannah ond yn magu heffrod cyfnewid o’u hanifeiliaid gorau yn arwain at gynnydd genetig cyflym.

Pe bai'r cyfle'n codi wedyn i allu gwerthu rhai o'r anifeiliaid salach, byddai hyn yn gwella perfformiad y fferm yn gyflym, er enghraifft, gan fod yr anifeiliaid salach yn amharu ar ansawdd llaeth y rhai gorau.

Un nodwedd allweddol i ganolbwyntio arni wrth symud ymlaen yw dewis ar gyfer gwerth SCC (cyfrif celloedd somatig) negyddol, gan hefyd gynnal y cryfderau o ran solidau llaeth a gwella nodweddion iechyd ymhellach.

Am gost o tua £25 y prawf, gyda heffer newydd yn costio rhwng £1,000-£3,000 i'w magu o’r adeg y caiff ei geni hyd at y cyfnod lloea, mae'n ymddangos y byddai profion genomig yn adnodd rheoli gwerthfawr i'r teulu Hannah wrth iddyn nhw geisio gwella allbwn a magu buches naturiol iach.

I gael rhagor o wybodaeth am y prosiect hwn, sganiwch neu cliciwch ar y cod QR neu ewch i wefan Cyswllt Ffermio;
**llyw.cymru/cyswlltffermioeinffermydd**

RHWYDWAITH ARDDANGOS DEMONSTRATION NETWORK

EIPWALES

Cydweithio er ffyniant gwledig
Collaborating for rural success

# Gall samplo cyfrif wyau ysgarthol (FEC) leihau'r angen i roi triniaeth llyngyr i stoc ifanc godro a bîff yn sylweddol heb gael effaith ar eu hiechyd a'u perfformiad.

Arweiniodd prosiect tair blynedd Partneriaeth Arloesedd Ewrop (EIP) yng Nghymru ar ffermydd llaeth yng Ngheredigion at weld y tair fferm yn rheoli eu heffrod blwydd R2 ar laswellt heb yr angen i'w trin am lyngyr.

Yn y gorffennol, roedd y teulu Mossman, sy'n cadw 100 o heffrod R1 a 100 o heffrod R2, yn dilyn yr arfer cyffredin o roi triniaeth llyngyr i'r heffrod dair wythnos ar ôl eu troi allan a phob pum wythnos wedyn yn ystod y tymor pori.



*Ffigwr 10. Chris Mossman*

Ond gan fod y profion yn dangos cyfrif wyau isel yn gyson, roedd gan y teulu'r hyder i beidio â thrin eu heffrod R1 ac R2 o gwbl.

"Fe wnaethom synnu ein hunain oherwydd doedden ni ddim yn meddwl y byddai'n bosibl," dywedodd Chris Mossman, sy'n ffermio gyda'i wraig Debbie, a'i ferch, Bella, yn Nantybach, Llangrannog.

Rhoddodd y ddwy fferm arall; Pentrefelin, Talsarn a Henbant, Talgarreg, oedd â mwy o faich o lyngyr, driniaeth yn llai aml i'w heffrod R1. Fe wnaethant hefyd newid i ddefnyddio dos gwyn (1BZ) a dos melyn (2LV) ar ôl i brofion effeithiolrwydd ddangos bod y triniaethau clir (3ML) yn llai effeithiol.

Dangosodd y data a gasglwyd yn ystod y prosiect EIP bod patrymau tyfu tebyg i flynyddoedd blaenorol pan oedd dos clir yn cael ei ddefnyddio a'r heffrod yn cael eu trin yn ôl y patrwm, felly, nid oedd y newidiadau yn y triniaethau yn cael unrhyw effeithiau amlwg ar berfformiad.

Dywedodd un o'r arbenigwyr oedd yn ymwneud â'r prosiect, Yr Athro Diana Williams, o Grŵp Ymchwil Parasitoleg Milfeddygol Prifysgol Lerpwl:

"Yn draddodiadol, y cyngor i ffermwyr oedd rhoi dos i loeau sy'n pori eu tymor cyntaf yn rhan gynnar y tymor i atal afiechyd yng nghanol y tymor, ond, oherwydd llawer o ffactorau fel newid hinsawdd ac ymwrthedd i driniaethau llyngyr, mae angen i'r cyngor hwnnw newid.



*Ffigwr 11. Yr Athro Diana Williams yn archwilio sleidiau*

"Dangosodd y prosiect hwn y gallwn ddefnyddio FEC (cyfrif wyau ysgarthol) yn ddibynadwy, ochr yn ochr â data cyfradd tyfu a chyflwr y lloeau, fel dull o fonitro heintiad yn ystod y tymor pori a dim ond trin pan fydd ar yr anifeiliaid wirioneddol ei angen yn hytrach na rhoi dos yn ôl y dyddiad ar y calendr."

Dangosodd y prosiect EIP wahaniaethau mawr yn y lefelau wyau i bob gram ar bob fferm yn y cynllun treialu, er gwaethaf y ffaith bod y tair yn lloea yn y gwanwyn ac â systemau pori tebyg.

Un o'r problemau a amlygwyd gan y prosiect yw bygythiad llyngyr yr ysgyfaint pan fydd y driniaeth lyngyr i reoli llyngyr yn y perfedd yn cael ei lleihau.

"Os ydych yn dechrau meddwl am gyfrif wyau ysgarthol i reoli llyngyr gastroberfeddol, allwch chi ddim anghofio am lyngyr yr ysgyfaint," rhybuddiodd yr Athro Williams. "Ceisiwch gyngor milfeddygol os oes unrhyw leihad yn y cyfraddau tyfu neu bod anifeiliaid yn peswch."

Bydd rhoi unrhyw anifeiliaid newydd sy'n dod i mewn i'r fferm mewn cwarantîn yn lleihau'r risg o ddwyn llyngyr yr ysgyfaint i'r fferm a gall heffrod R1 gael eu brechu ar ôl eu troi allan i'w diogelu rhag llyngyr yr ysgyfaint.

Am ragor o wybodaeth ac i ddarllen yr adroddiad terfynol, sganiwch neu cliciwch ar y cod QR neu ewch i wefan Cyswllt Ffermio; **llyw.cymru/cyswlltffermio**

## YMWRTHEDD I DRINIAETH LLYNGYR

Canfu'r prosiect ddiffyg effeithlonrwydd arwyddocaol yn y grŵp 3ML o anthelmintigau ar ddwy o'r ffermydd lle cynhaliwyd nifer o brofion i fesur gostyngiad mewn cyfrif wyau ysgarthol gan ddefnyddio system FECPAKG2 Techion UK.

Gwelwyd hyn mewn triniaethau llyngyr lle'r oedd ivermectin a'r moxidectin sy'n gweithredu'n hwy yn gynhwysyn gweithredol.

Ar un o'r ffermydd, dangosodd triniaeth gyda thriniaeth llyngyr tywallt clir ar un achlysur bod ei gyfradd effeithiolrwydd yn ddim ond 8% ac nid oedd fyth yn uwch na 81%.

Mewn cyferbyniad i hynny, roedd benzimidazole a levamisole – triniaethau llyngyr gwyn a melyn – yn hollol effeithiol, gan roi gostyngiad o 100%.

Mae'r canlyniadau o'r FECRT yn rhoi darlun o ymwrthedd posibl, dywedodd Eurion Thomas, o Techion UK, oedd hefyd yn rhan o'r prosiect.

Mae'n argymell y dylid gwneud prawf FECRT bob dwy neu dair blynedd i sicrhau bod y triniaethau llyngyr sy'n cael eu defnyddio'n gweithio.

Dywedodd Mr Thomas bod yr ymchwil yn amlygu pam na ddylai ffermydd ddibynnu ar un dosbarth o driniaeth llyngyr ac y dylai ffermwyr ddeall pa gynhwysion gweithredol sydd yn y cynnyrch y maent yn ei ddefnyddio.

**SWYDDOG TECHNEGOL:** Debbie Handley
**TEITL Y PROSIECT:** Llunio profiad ymweld â fferm o gwmpas yr adnoddau sydd yno'n barod

Penderfyniad ffermwr ifanc i wneud ei fferm deuluol yn hunangynhaliol a chael gwared o'i dibyniaeth ar daliadau cymhorthdal uniongyrchol oedd y catalydd ar gyfer arallgyfeirio garddwriaethol llwyddiannus.

Ymunodd Ed Swan â'i rieni, Clive a Gail ar Fferm Ffrith, ger Treuddyn, yr Wyddgrug ar ôl astudio amaethyddiaeth. Gosododd y nod iddo ei hun o gynyddu gallu'r busnes i fod yn hunangynhaliol – roedd gan y teulu Swan eisoes siop fferm oedd wedi hen sefydlu.

Gyda 200 erw o dir a'r angen i dri o bobl gael bywoliaeth ohono, roedd arallgyfeirio ymhellach yn galw.

"Nid oeddem am fynd i lawr llwybr ffermio ar raddfa fwy, gan fynd ar ôl tir drud, ond gwneud i'r hyn oedd gennym ennill rhagor," esboniodd Ed.

Gyda hynny dan sylw, daeth y fferm yn safle ffocws Cyswllt Ffermio, gan archwilio dewisiadau o ran creu profiad ymweld â fferm o gwmpas yr adnoddau oedd yno'n barod, gyda chefnogaeth Swyddog Technegol Garddwriaeth Cyswllt Ffermio, Debbie Handley.

Roedd y ffaith bod Ed, yn anfwriadol, wedi cynnwys canran uchel o hadau blodau haul mewn cymysgedd gwndwn llysieuol i wartheg yn 2021 wedi tanio un syniad i gyflawni hynny'n barod.

"Roedd yn gamgymeriad hapus," meddai Ed ac mewn trafodaeth gyda Debbie, penderfynais edrych ar fentrau casglu eich hun gan ei fod yn clymu gyda phopeth arall sydd gennym yma."

Heuwyd blodau haul ar dair erw ac yn 2022, gwerthwyd 2,500 o flodau. Roedd y fenter honno'n llenwi cyfnod tawel i'r busnes yn y siop fferm yn yr haf, pan oedd llawer o'r cwsmeriaid arferol i ffwrdd. Er mwyn rhoi hwb i incwm yn hwyr yn yr hydref, pan all gwerthiannau dawelu cyn cyfnod prysur y Nadolig, datblygwyd menter 'casglu eich pwmpenni eich hun' ar gyfer Calan Gaeaf.

Trwy gydol ei waith safle ffocws, cefnogwyd Ed gan arbenigwr garddwriaeth ADAS, Chris Creed.

"Nid oedd unrhyw gwestiynau'n mynd heb eu hateb gan Chris neu gan Debbie," dywedodd. "Roedd eu cael nhw'n dod i mewn i adolygu'r prosiect yn fy nghadw yn fy lle, doedden nhw ddim yn swil o ddweud os oeddwn yn gwneud rhywbeth yn anghywir ac roedd hynny'n beth da!"



*Ffigwr 12. Blodau haul Fferm Ffrith*

Draeniwyd darn o dir dan y siop, oedd yn anialwch cynt, a'i glustnodi ar gyfer y darn pwmpenni. Prynodd Ed 4,000 o hadau pwmpenni a chomisiynu meithrinfa leol i'w tyfu i fod yn blanhigion bach – cyfanswm cost y cyfan oedd £700. Gwelodd y dull hwnnw gyfradd lwyddiant o 90% ar ôl eu plannu allan.

Roedd y potash a roddwyd ar 200kg/erw yn costio £400 a gwariwyd £200 ar ffwngladdwr i daclo llwydni blodiog yr oedd yr haf poeth yn ei achosi.

Buddsoddodd y busnes £200 mewn fflyd o 14 berfa i gwsmeriaid gasglu eu pwmpenni.

Pan oedd y cnwd yn barod i'w hel, daeth cwsmeriaid yn eu tyrfaoedd, gan dalu o £2-£8 am bob pwmpen, gyda nifer ohonynt yn prynu sawl un.

Wrth osod y pris, tarodd Ed gydbwysedd rhwng bod yn gystadleuol a chynhyrchu elw. "Fel ffermwyr, rwy'n meddwl ein bod yn aml yn cael trafferth sylweddoli beth yw gwerth yr hyn yr ydym yn ei gynhyrchu," cyfaddefodd.

Mae'r incwm o'r busnes casglu eich hun wedi ychwanegu at broffidioldeb y fferm, ac mae hynny'n rhoi hyder i Ed wrth iddo edrych tuag at y cyfnod pan fydd y Cynllun Taliad Sylfaenol yn dod i ben.

Er bod y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn rhoi pwyslais mawr ar nwyddau amgylcheddol, cred na ddylai ffermwyr fod angen cymhelliant ariannol i weithio gyda'r amgylchedd.

Ymhlith y nifer o gamau sydd ganddo i gynnal bywyd gwyllt a bioamrywiaeth mae gadael y cnwd blodau haul yn ei le dros y gaeaf, fel bwyd i'r adar.

"Mae'n amgylchedd i ni yn gymaint ag i unrhyw un arall, nid wyf yn meddwl y dylem ddisgwyl cael ein talu am ofalu amdani. Ni ddylai hynny fod yr unig reswm pam ein bod yn gwneud cynnydd," meddai Ed.



*Ffigwr 13. Pwmpenni Fferm Ffrith Gorffennaf 2022*




*Ffigwr 14. Ed Swan yn Fferm Ffrith*


I gael rhagor o wybodaeth am y prosiect hwn, sganiwch neu cliciwch ar y cod QR neu ewch i wefan Cyswllt Ffermio;
**llyw.cymru/cyswllttffermioeinffermydd**

RHWYDWAITH ARDDANGOS DEMONSTRATION NETWORK


# Canolfan Gyfnewid Gwybodaeth Cyswllt Ffermio

## Stribedi byffro torlannol


➜ Mae stribedi byffro torlannol yn rhwystrau corfforol a biolegol rhwng ein caeau a'n dyfrffyrdd. Maent yn rhwystro, amsugno a hidlo maetholion, gronynnau a chemegau gyrraedd dyfrffyrdd.





➜ Mae unrhyw stribed llystyfiant neu stribed byffro yn well na dim, ond, gorau po ehangaf, yn gyffredinol.




➜ Mae gwahanol barthau torlannol yn bresennol wrth ymyl dyfrffyrdd; mae gan bob un o'r rhain fath o lystyfiant gwahanol sydd â galluoedd gwahanol i ddelio â dŵr a llifogydd.




➜ Yn realistig, mae gan wahanol fathau o blanhigion a rhywogaethau torlannol wahanol gryfderau a gwendidau, felly mae systemau rhywogaethau cymysg yn gweithredu orau ac yn cyflawni mosaigau cynefin gyda:



**SWYDDOG TECHNEGOL:** Lynwen Mathias
**TEITL Y PROSIECT:** Rheoli'r newid: Prosiect buchod magu i fiff gwartheg llaeth - dognau bwyd y gwartheg

Mae gwneud y mwyaf o'r glaswellt ar y fferm yn nod bwysig i Neil yn fferm Cefnllan ger Llangamarch, safle arddangos cig coch. Mae prosiect oedd yn golygu newid o fuches fagu i fiff gwartheg llaeth wedi bod yn digwydd yng Nghefnllan dros y tair blynedd ddiwethaf. Un o nodau'r prosiect oedd gwella ansawdd y glaswellt o 63 i 70 o ran gwerth D (gwerth treuliadwy) ac anelu at gael 0.8kg o gynnydd mewn pwysau byw yn ddyddiol dros y gaeaf yn y system wartheg gan ddefnyddio ychydig iawn o ddwysfwyd ychwanegol.

Bu Hefin Richards, o Rumenation yn gweithio gyda Neil yn ystod y tair blynedd ddiwethaf i lunio dognau i'r gwartheg yn fferm Cefnllan. Mae diet y gwartheg ar eu prifiant sydd dan do yn seiliedig ar ddogn porthiant uchel ac yna dogn â mwy o startsh i gyflymu'r cyfnod gorffen i gadw'r amser ar y fferm cyn fyrred â phosibl. Mae ansawdd y silwair yn ffactor bwysig i'r fenter bîff yn fferm Cefnllan gyda meillion coch yn y gwndwn i dargedu gwerth D a phrotein uchel. Yn ychwanegol at y silwair, mae cnydau grawn â hadau danynt sy'n rhoi startsh i'r gwartheg. Tyfir cymaint ag sy'n bosibl ar y fferm, gydag unrhyw fylchau yn y dogn yn cael eu prynu i mewn. Yn ystod yr haf, torrwyd silwair sawl gwaith (clamp a byrnau), a chynhaliwyd dadansoddiad silwair ar dri thoriad.

| | Gwerth D (% DM) | Protein crai (% DM) | Deunydd sych (%) | ME (MJ/kgDM) |
|---|---|---|---|---|
| Toriad 1 - Clamp | 71.19 | 11.87 | 28.39 | 11.39 |
| Toriad 2 - Byrnau | 73.50 | 16.56 | 38.02 | 11.76 |
| Toriad 3 - Byrnau | 71.49 | 19.10 | 46.85 | 11.44 |

*Tabl 2. Dadansoddiad silwair Cefnllan yn 2022*

Fel y gwelir yn y tabl uchod, roedd y toriad cyntaf yn siomedig o ran protein crai mewn cymhariaeth â'r ddau doriad arall ac roedd gan y tri thoriad werth D dros 70. Roedd y dogn i wartheg ar eu prifiant a luniwyd yn cynnwys silwair y clamp a'r byrnau, mwynau a chymysgedd, gyda'r gymysgedd wedi ei chreu yn ôl archeb a'i bwydo ar tua 1.75kg/pen/dydd gyda'r silwair. Mae'r gwartheg yn cael eu pwyso'n gyson er mwyn gallu monitro eu perfformiad yn ofalus.



*Ffigwr 15. Gwartheg yn fferm Cefnllan*

I gael rhagor o wybodaeth am y prosiect hwn, sganiwch neu cliciwch ar y cod QR neu ewch i wefan Cyswllt Ffermio;
**llyw.cymru/cyswlltffermioeinffermydd**

RHWYDWAITH ARDDANGOS DEMONSTRATION NETWORK

PROSIECT PRIDD CYMRU
WELSH SOIL PROJECT

**Lansiwyd Prosiect Pridd Cymru yng ngwanwyn 2022 gyda'r nod o amcangyfrif stoc carbon pridd nifer o gaeau ar safleoedd arddangos Cyswllt Ffermio.**

Ceir dryswch rhwng gwahanol dermau yng nghyswllt carbon yn aml. Dyma rai diffiniadau bras i wahaniaethu rhyngddynt o safbwynt y pridd -

**Atafaelu carbon (carbon sequestration)** – sefydlogi carbon o'r atmosffer gan briddoedd

**Stoc carbon** – faint o garbon sy'n cael ei storio mewn priddoedd

**Ffynhonnell carbon** – priddoedd sy'n rhyddhau carbon

Gall priddoedd fod yn ffynonellau carbon neu atafaelu carbon gan ddibynnu ar nifer o ffactorau, fel defnydd tir, arferion rheoli, hinsawdd a'r math o bridd[1]. Mae newidiadau yn stoc carbon y pridd yn digwydd yn raddol dros nifer o flynyddoedd, a bydd yr hyn a gesglir dros amser yn golygu bod gallu priddoedd i atafaelu rhagor o garbon yn cael ei gyfyngu yn y pen draw[2,3,4]. Gall hyn greu her wrth geisio pennu a rhagweld newidiadau i stoc carbon pridd oherwydd atafaelu. Ond mae llawer mwy o ffermwyr wedi dangos diddordeb mewn mesur a deall eu stoc carbon pridd yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Bydd mesur eich stoc carbon pridd presennol a'i ail asesu mewn blynyddoedd i ddod er mwyn monitro'r newid yn y stoc carbon yn gadael i chi gyfrifo cyfradd atafaelu carbon y pridd yn flynyddol[5] (h.y. faint o atafaelu carbon sydd wedi digwydd rhwng y ddau fesur). Gall hefyd helpu ffermwyr i ddeall pwysigrwydd rheoli priddoedd mewn modd fydd yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd y pridd, gweithgaredd microbaidd, y cyflenwad o faetholion a chynnyrch y cnwd/borfa. Yn gyffredinol, mae'r amcangyfrifon presennol ar gyfraddau atafaelu carbon pridd yn cael eu modelu ar sail gwybodaeth wyddonol oherwydd diffyg data ar gael[6].

Gall rhai priddoedd fod wedi cyrraedd eu heithaf o ran eu stoc carbon. Yn yr enghreifftiau hyn, er gwaethaf y ffaith na fydd y pridd yn gallu atafaelu llawer mwy o garbon, mae'n bwysig iawn i'r carbon sydd wedi ei storio ar hyn o bryd yn y pridd beidio â chael ei golli a bod y tir yn cael ei reoli mewn modd fydd yn hyrwyddo ei rôl fel storfa garbon.

*1 Freibauer, A., Rounsevell, M.D.A., Smith, P., Verhagen, J., 2004. Carbon sequestration in the agricultural soils of Europe. Geoderma 122, 1-23.*

*2 CIEL, 2020. Net Zero Carbon & UK Livestock. Centre for Innovation Excellence in Livestock. [Online]. Available at: https://www.cielivestock.co.uk/wp-content/uploads/2020/09/CIEL-Net-Zero-Carbon-UK-Livestock_2020_Exec-Summary.pdf. Accessed December 2nd, 2022.*

*3 West, T.O., Six, J., 2007. Considering the influence of sequestration duration and carbon saturation on estimates of soil carbon capacity. Climatic change 80(1), 25-41.*

*4 Smith, P., 2014. Do grasslands act as a perpetual sink for carbon?. Global Change Biology 20(9), 2708-2711.*

*5 Smith, P., 2021. How to measure, report and verify soil carbon change. AGU Fall Meeting Abstracts, Vol. 2021, GC41D-01.*

*6 Jandl, R., Rodeghiero, M., Martinez, C., Cotrufo, M.F., Bampa, F., Van Wesemael, B., Harrison, R.B., Guerrini, I.A., Richter Jr, D.D., Rustad, L., Lorenz, K., 2014. Current status, uncertainty and future needs in soil organic carbon monitoring. Science of the Total Environment 468, 376-383.*

Am ragor o wybodaeth am Brosiect Pridd Cymru, sganiwch neu cliciwch ar y cod QR neu ewch i wefan Cyswllt Ffermio;
**llyw.cymru/cyswlltffermioeinffermydd**

*Rheoliadau*

## Rheoli Llygredd Amaethyddol

# RHEOLIADAU DŴR

Daeth ail gam y rheoliadau i rym ar 1 Ionawr 2023. Fydd rhai busnesau fferm ddim yn gweld unrhyw effaith, neu ychydig iawn o effaith; gall eraill fod angen cymorth i gydymffurfio.

I ardaloedd oedd yn y Parthau Perygl Nitradau, nid oedd y newid yn digwydd bob yn gam ac mae'r holl reolau wedi dod i rym ers 1 Ebrill 2021.

### Cynllunio rheoli maetholion

Defnyddir y Cynllun Rheoli Maetholion i ddangos eich bod yn cydymffurfio â'r Rheoliadau, ond mae hefyd yn adnodd pwysig wrth reoli'r chwalu gwrtaith nitrogen ar gyfer eich daliad a all wella tyfiant y cnwd, lleihau'r defnydd o wrtaith wedi ei weithgynhyrchu a lleihau'r risg o lygredd.

- Rhaid i'r gwrtaith a roddir beidio â mynd dros y cyfyngiadau cnwd a nodir.
- Mae cyfyngiad o 250kg/ha o nitrogen yn berthnasol i chwalu tail organig ar unrhyw gae yn flynyddol.
- Cofnodi mewngludo neu allgludo tail organig.
- Mae Llywodraeth Cymru yn darparu templedi ar gyfer Cynlluniau Rheoli Maetholion; ond, gallwch gadw eich cofnodion eich hun ar yr amod bod meini prawf y rheoliadau yn cael eu bodloni.
- Rhaid i gopïau o Gynlluniau Rheoli Maetholion gael eu cadw am leiafswm o bum mlynedd a rhaid iddynt fod ar gael i'w harchwilio os gofynnir amdanynt.

### Mannau storio tail organig (heblaw slyri)

Rhaid i dail organig (heblaw slyri); neu unrhyw ddeunydd dan anifeiliaid a lygrwyd ag unrhyw dail organig gael ei storio naill ai:

- Mewn cynhwysydd
- Mewn adeilad wedi ei orchuddio
- Ar arwyneb anhydraidd (gelwir hylif sy'n deillio o unrhyw dail solid a gedwir ar arwyneb anhydraidd yn slyri a rhaid ei gynnwys mewn modd addas)
- Ar safle dros dro ar gae

### Safleoedd dros dro ar gaeau

Rhaid i safleoedd dros dro ar gaeau beidio â chael eu gosod:

- Mewn unrhyw un lle am fwy na 12 mis dilynol nag yn yr un lle ag un a fu yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf
- Mewn cae sy'n debygol o brofi llifogydd neu fynd yn llawn dŵr
- O fewn 10m i ddŵr wyneb neu ddraen tir, o fewn 30m o gwrs dŵr ar dir a ddynodwyd fel un â llethr sy'n fwy na 20% neu o fewn 50m i ffrwd, ffynnon neu dwll turio.

### Mapiau risg

Rhaid cynhyrchu mapiau risg a gellir eu dylunio i'ch galluogi i gydymffurfio â mesurau eraill yn ogystal â'r Rheoliadau yma. Rhaid i chi ddiweddaru'r map risg gydag unrhyw newidiadau a rhaid i chi gadw copïau o'ch map risg, am leiafswm o bum mlynedd.

Gallwch weld taflen wybodaeth Cyswllt Ffermio am fapiau risg neu gyfarwyddyd Llywodraeth Cymru i ddynodi'r rhestr lawn o nodweddion sy'n ofynnol ar gyfer y map risg.

### Rheoli chwalu gwrtaith nitrogen

Rhaid i unrhyw un sy'n chwalu gwrtaith nitrogen wneud hynny mewn modd mor fanwl gywir â phosibl.

- Rhaid i offer chwalu slyri fod â thaflwybr chwalu isel sydd yn is na 4m o'r ddaear.
- Gall offer chwalu gyda thaflwybr o fwy na 4m o'r ddaear gael eu defnyddio ar dir sydd â risg isel y bydd yn rhedeg oddi arno a phan fydd gan yr offer gyfradd chwalu is na 2mm yr awr.

### O 30 Ebrill 2023

**Cyfyngiad nitrogen ar gyfer chwalu tail anifeiliaid**

Mae Llywodraeth Cymru'n rhoi estyniad o 4 mis i weithredu'r cyfyngiad 170kg/ha blynyddol ar nitrogen o dail anifeiliaid wedi ei gyfartalu dros y daliad, naill ai wedi ei adael yn uniongyrchol gan yr anifail neu trwy chwalu hyd at 30 Ebrill 2023.

**Nid yw hyn yn effeithio ar fesurau eraill 1 Ionawr 2023.**

### Cyfarwyddyd Llywodraeth Cymru

Mae Cyfarwyddyd Manwl i Ffermwyr a Rheolwyr Tir, llyfr gwaith digidol a dogfen Cwestiynau Cyffredin ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru: **llyw.cymru/rheoli-tir**

### Cefnogaeth Cyswllt Ffermio

Mae gan Cyswllt Ffermio amrywiaeth o gefnogaeth a all eich cynorthwyo wrth gynllunio rheoli maetholion a gwneud y gorau o dwf cnydau. Am ragor o wybodaeth, ewch i wefan Cyswllt Ffermio: **llyw.cymru/cyswlltffermio**

### Llinell Gymorth Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol

Mae llinell gymorth benodol ar gyfer Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol ar gael, sy'n cael ei gweithredu gan ADAS, i gefnogi ffermwyr a rheolwyr tir gyda gofynion y Rheoliadau. Rhif y llinell gymorth yw **01974 847000**.

# Roedd Nadine Evans eisiau bod yn ffermwr ar hyd ei hoes!

## Helpodd Cyswllt Ffermio hi bob cam o'r ffordd.

**Yn ei hugeiniau cynnar, gorffennodd Nadine Evans, a fagwyd yn Lerpwl, radd mewn astudiaethau amgylcheddol. Ail ddewis oedd hwnnw iddi, oherwydd yn yr ysgol roedd cynghorydd gyrfaoedd wedi dweud wrthi na fyddai fyth yn gallu cael lle mewn coleg amaethyddol gan nad oedd ganddi unrhyw brofiad ar fferm!**

Ar ôl y brifysgol, a phriodas, newid tŷ 17 o weithiau - roedd ei gŵr yn y lluoedd arfog – a chyfres o swyddi yn gweithio hefo ceffylau, dychwelodd Nadine i'r bywyd academaidd yn ei phedwardegau, paratoi i fod yn Fargyfreithiwr, er iddi benderfynu wedyn nad oedd am weithio fel bargyfreithiwr. Yn ei phumdegau cynnar erbyn hyn ac ar ôl i'w gŵr ymddeol a symud i ardal wledig yn Sir Fynwy, dywed Nadine ei bod o'r diwedd yn 'byw ei breuddwyd wledig' ac yn gwneud y gwaith yr oedd hi wedi breuddwydio am gael ei wneud ar hyd ei hoes.

Am y ddwy flynedd ddiwethaf, mae wedi bod yn helpu Robert Whittall, sydd gyda'i fab Ryan yn ffermio Square Farm (190 erw) a'r siop Square Farm boblogaidd yn Llanfihangel Troddi, ger Trefynwy. Ochr yn ochr â'r holl brofiad ymarferol y mae'n ei gael bob dydd, mae wedi cael gwybodaeth eang trwy gyrsiau e-ddysgu Cyswllt Ffermio sy'n cael eu hariannu'n llawn, gan ganolbwyntio'n bennaf ar bynciau iechyd a lles anifeiliaid.

Yn wylaidd am ei sgiliau ffermio, mae Nadine yn helpu gyda'r rhan fwyaf o dasgau ar y fferm organig brysur hon ac yn ddiweddar cafodd dystysgrif gan Cyswllt Ffermio am yrru tractor.

"Er mwyn rhoi hwb i'r holl sgiliau ymarferol yr wyf yn eu hymarfer bob dydd dan lygaid profiadol y teulu amaethyddol proffesiynol iawn hwn, fe wnes i droi at Cyswllt Ffermio, oherwydd fy mod eisiau'r wybodaeth ddiweddaraf am yr ochr ddamcaniaethol a phrofi lefel fy ngwybodaeth."

Mae Nadine yn rhoi adroddiadau'n uniongyrchol i Mr Whittall, sydd yr ail genhedlaeth i ffermio Square Farm, a'i fab Ryan. Mae Nadine yn helpu i gadw golwg dyddiol a hwsmonaeth yr holl anifeiliaid, gan sicrhau bod ganddynt ddigon o fwyd a dŵr a chadw llygad ofalus am broblemau posibl.

---

Er mwyn clywed y stori lawn a chlywed beth sydd gan Nadine i'w ddweud am fanteision ei 'thaith ddysgu' amaethyddol, ewch i'r tudalennau newyddion yn **llyw.cymru/cyswlltffermio**



*Ffigwr 16. Nadine Evans gyda Lisa Powell, Swyddog Datblygu Cyswllt Ffermio*



## NADINE EVANS

•"Ti yw ein 'merch tractor'!" Ar ôl cael llawer o brofiad ymarferol dan lygad ofalus Robert Whittall, mae gan Nadine yn awr dystysgrif gyrru tractor Cyswllt Ffermio i 'brofi fy ngallu!"

"Rwy'n teimlo'n hyderus fy mod yn gwybod pan fydd popeth yn iawn – sy'n wir fel arfer, yn arbennig gyda diadell sy'n ŵyna allan yn y gwanwyn sydd wedi ei magu i sicrhau safon a pherfformiad – ond rwyf hefyd yn gwybod beth yw'r arwyddion os bydd unrhyw anifail mewn trafferth neu yn dangos arwyddion cynnar o broblemau iechyd,"

"Mae gweld rhestr o'r hyn yr wyf wedi llwyddo i'w wneud trwy Cyswllt Ffermio yn fy nghofnod Storfa Sgiliau ar-lein yn rhoi'r cymhelliant i mi ddal i ddysgu ac o'r diwedd mae gennyf cv ffermio credadwy!"

**Roedd taith e-ddysgu wedi ei hariannu'n llawn Nadine gyda Cyswllt Ffermio yn cynnwys astudio…**

- Ymwrthedd gwrthficrobaidd
- Bioddiogelwch a chwarantîn
- Iechyd a diogelwch

**IECHYD ANIFEILIAID I WARTHEG**

- Sgorio cyflwr y corff
- TB Gwartheg
- Cloffni gwartheg
- Rheoli diarrhoea feirol gwartheg (BVD)
- Afiechyd Johne mewn gwartheg
- Llyngyr yr iau mewn gwartheg
- Gastro-enteritis parasitaidd (PGE) a llyngyr yr ysgyfaint mewn gwartheg
- Afiechyd resbiradol mewn gwartheg
- Cyflyrau croen gwartheg - ectoparasitiaid gwartheg
- Elfennau hybrin mewn gwartheg

**IECHYD ANIFEILIAID I DDEFAID**

- Afiechydon y llygad ar ddefaid
- Ŵyna, tocio, maethu a thorri ar ŵyn
- Colledion ŵyna rhan 1: erthylu a maethiad (Digwyddiad Iechyd a Lles Anifeiliaid)
- Problemau ŵyna
- Goroesi adeg ŵyna
- Rheoli llyngyr yr iau mewn defaid
- Iechyd yr hwrdd
- Afiechyd resbiradol mewn defaid
- Cloffni defaid
- Rheoli parasitiaid defaid Rhan 2: clafr defaid, llau a llyngyr yr iau (Digwyddiad Iechyd a Lles Anifeiliaid)

**HYFFORDDIANT WEDI EI ACHREDU (cymhorthdal hyd at 80% i unigolion cymwys)**

- Gyrru tractor - llwythwr blaen

**ROEDD Y DIGWYDDIADAU TROSGLWYDDO GWYBODAETH YN CYNNWYS…**

- Deugnydio pys a ffa i gynhyrchu dwysfwyd protein – diwrnod agored Cyswllt Ffermio
- Rheoli'r oen ar ei brifiant (digwyddiad ymwybyddiaeth strategol Cyswllt Ffermio)
- Rheoli priddoedd a glaswelltir – diwrnod agored Cyswllt Ffermio

# Mae ffermydd yn fannau rhyfeddol ond gallant fod yn beryglus hefyd

**Bydd fideo a llyfrynnau newydd am ddiogelwch ar y fferm yn helpu plant cynradd i adnabod y peryglon!**

**Yn ystod y Ffair Aeaf llynedd yn Llanelwedd, lansiodd Gweinidog Materion Gwledig Llywodraeth Cymru, Lesley Griffiths, ymgyrch gyhoeddusrwydd ddwyieithog newydd am ddiogelwch ar y fferm, gan dargedu plant cynradd yng Nghymru.**

Cynhyrchwyd fideo fer a dau lyfr gwaith A4 lliwgar ar gyfer plant rhwng pedair a saith oed a rhwng saith ac un-ar-ddeg oed gan Bartneriaeth Diogelwch Fferm Cymru (WFSP), sef trefniant cydweithredu rhwng rhai o'r prif sefydliadau rhanddeiliaid gwledig yng Nghymru, a bydd y rhain yn annog y grwpiau oedran hyn i ddysgu am bwysigrwydd diogelwch ar y fferm a diogelu eu hunain rhag rhai o'r peryglon mwyaf cyffredin ar ffermydd.

Mae peryglon cerbydau sy'n symud, cwympo o uchder, tanciau slyri a mynd yn rhy agos i anifeiliaid yn ychydig o'r meysydd 'risg uchel' a amlygir yn yr ymgyrch newydd, lle y caiff ffeithiau ergydiol eu deall yn hawdd trwy gyfrwng y fideo diddorol iawn a llawn gwybodaeth, yn ogystal â'r posau, y chwileiriau a'r cwisiau yn y llyfr gwaith. Bydd pob llyfr gwaith yn cynnwys 'Cynllun argyfwng diogelwch fferm' hefyd, a fydd yn annog plant i eistedd i lawr gydag aelodau hŷn o'r teulu i lenwi hwn a'i ddangos mewn man amlwg, a fydd yn ffordd ddyddiol o'u hatgoffa 'sut i gadw'n ddiogel'.

Esboniodd y Gweinidog, a gyflwynwyd gan y cyflwynydd teledu adnabyddus a chennad WFSP, Alun Elidyr, er bod ffermydd yn gallu bod yn ffynhonnell dysgu gwych, gan ysbrydoli a hysbysu plant a phobl ifanc i ddysgu o ble y daw eu bwyd ac i barchu anifeiliaid a byd natur, ei bod yn hanfodol eu bod yn ymwybodol o'r peryglon niferus hefyd.

"Mae ffermydd yn fannau hyfryd i fagu plant ac maent yn cynnig profiadau gwych iddynt.

"Fodd bynnag, gall ffermydd fod yn fannau peryglus hefyd, ac mae'n drasig bod damweiniau sy'n cynnwys plant yn digwydd o hyd ar ffermydd yma yng Nghymru, flwyddyn ar ôl blwyddyn – ac mae pob un ohonynt yn drasiedi torcalonnus sy'n gallu distrywio teuluoedd, ffrindiau a chymunedau gwledig.

"Mae'n hanfodol ein bod oll yn cydweithio i wneud popeth y gallwn i godi ymwybyddiaeth o'r pwnc pwysig hwn ymhlith plant ifanc a'u teuluoedd, felly rydw i'n falch iawn o lansio'r adnoddau newydd pwysig hyn ar gyfer ein plant cynradd," dywedodd y Gweinidog.

Diolchodd Alun Elidyr i'r Gweinidog am gefnogaeth barhaus Llywodraeth Cymru tuag at Bartneriaeth Diogelwch Fferm Cymru wrth i'r diwydiant weithio gyda chymunedau, rhanddeiliaid a theuluoedd er mwyn ceisio creu ymwybyddiaeth a lleihau'r ystadegau torcalonnus sy'n dinistrio teuluoedd amaethyddol flwyddyn ar ôl blwyddyn.

